## Gwahoddiad i Dendr

---

# *'Pecyn Rhaglenni Ffeithiol'*

**Cyhoeddwyd ddydd Mercher 15 Hydref 2025**

**Cwestiynau tendr erbyn 12:00 canol dydd Mawrth 4 Tachwedd 2025**

**Amser Cau derbyn y ceisiadau : 12:00 canol dydd Llun 26 Ionawr 2026**

**Cyfweliadau (os oes angen) : Wythnos 16 Chwefror 2026**

**(Sylwer bod gan S4C yr hawl i newid y dyddiadau uchod)**

**GWAHODDIAD I DENDRO**

**'Pecyn Rhaglenni Ffeithiol'**

## 1. Rhagarweiniad

Gwahoddir ceisiadau gan Gwmnïau[1] i gynhyrchu arlwy o gynnwys Ffeithiol, gyda'r bwriad o ddarlledu o Haf 2026 ymlaen.

Mae'r arlwy ffeithiol yn ganolog i amserlen y sianel ac mae'r tendr yma yn rhoi cyfle i gwmni unigol neu i gwmnïau dod at eu gilydd i gynnig pecyn o gynnwys uchelgeisiol a chreadigol

**Y Pecyn**

28 awr o gynnwys fydd yn cael ei rannu dros gyfnod o ddwy flynedd (14 awr y flwyddyn, i'w gyfleu yn barhaol ar draws cyfnod y Cytundeb).

Lleiafswm o 10 awr y flwyddyn ar gyfer darlledu llinol, a lleiafswm o 2 awr y flwyddyn i'w gyhoeddi fel cyfresi digidol yn unig ar blatfform Youtube. Rydym yn agored i dderbyn a thrafod syniadau ar gyfer gweddill yr oriau (2 awr).

Rydym yn chwilio am becyn o gynnwys ffeithiol sy'n cynnig gwerth am arian dros gyfnod o ddwy flynedd. Rhaid i'r pecyn gynnig amrywiaeth o gyfresi 30m a 60m, dogfennau sengl, cynnwys ffurf fer ar gyfer Youtube a chynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Bydd y cynnwys yma yn cael ei ddarlledu/cyhoeddi yn llinol, ar Clic ac iplayer, ac ar draws ein platfformau digidol perthnasol. Disgwylir i'r holl gynnwys fod wedi clirio ar gyfer ei gyhoeddi ar Youtube.

Bydd lleiafswm o 2 awr o gynnwys yn cael ei gyhoeddi yn ddigidol yn unig ar blatfform Youtube.

Rydym yn awyddus i gael cynnwys ar draws yr ystod/genre ffeithiol ond yn benodol rydym yn chwilio am y canlynol:

- Hanes (cof byw)
- Ffordd o Fyw (Lifestyle)
- Fformatau ffeithiol all ddychwelyd
- Dogfennau unigol pwerus ar bynciau amserol
- Straeon personol cryf

Rydym hefyd yn awyddus i ystyriaethau cynaladwyedd gael eu cynnwys yn y cynllun cynhyrchu / yn yr elfennau cynnwys.

## 2. Ystod y cytundeb

Bwriedir cynnig cytundeb dwy flynedd (cyfnod 2026/2027 a 2027/2028). Cedwir yr hawl hefyd i ymestyn y cytundeb am flwyddyn ychwanegol ar yr un telerau ond nid oes modd cadarnhau ar hyn o bryd.

---

[1] At bwrpas y tendr hwn, golyga Cwmni unrhyw gwmni, partneriaeth, unigolyn neu gonsortiwm neu unrhyw ymgeisydd sy'n ymateb i'r gwahoddiad hwn i dendr.

Mae S4C yn amcangyfrif mai’r gost o gynhyrchu a chyfleu’r holl raglenni fydd hyd at y swm £1.5 miliwn (£750,000 y flwyddyn)

Nodir y pris hwn fel arweiniad yn unig ac fe’i cynigir fel arwydd o’r arian sydd ar gael. Fe ddylai pob cwmni nodi’n glir yn ei gais yr union ddarpariaeth y gall S4C ddisgwyl am y pris hwn. Bydd S4C yn croesawu ceisiadau sy’n is na’r amcan bris ond ni fydd unrhyw ddyletswydd arnynt i gynnig y tendr i’r Cwmni sydd yn cynnig y pris isaf.

## 3. Manylion i’w cyflwyno

Gofynnwn i chi gyflwyno’r wybodaeth a nodir isod. Nid oes ffurf safonol ar gyfer cyflwyno’r manylion ond anogir ymgeiswyr i osgoi gwario ar gynhyrchu cyflwyniadau lliwgar a drud. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd S4C yn atebol am unrhyw gostau sy’n deillio o baratoi neu gyfleu unrhyw gais, nac am unrhyw gostau sy’n deillio o fynychu unrhyw gyfweliad neu o wneud unrhyw gyflwyniad i S4C. Os byddwn yn gwahodd cyflwyniad gofynnwn i chi ei gyfyngu i 15 munud.

3.1 Manylion unrhyw gwmni (neu gwmnïau sydd yn creu partneriaeth) ar gyfer y cais yma:

- Enw’r cwmni (neu’r cwmnïoedd sy’n creu partneriaeth)
- Prif bwyntiau cyswllt y cwmni(au)
- Lle mae partneriaeth wedi creu - manylder ar sut bydd y cwmnïau wrth rannu cyfrifoldeb am weithredu’r cynhyrchu / ôl-gynhyrchu / materion busnes / gweinyddol / ariannol

3.2 Eich gweledigaeth ar gyfer y cyfresi – gan gynnwys triniaeth a fformat, steil a thôn, cynulleidfa darged, cyfranwyr ar sgrin.

3.3 Eich cynllun ar gyfer darparu deunydd digidol atodol i gydfynd â’r cynnwys

3.4 Gwybodaeth am yr isadeiledd gweithredol cynhyrchu

3.5 Gwybodaeth o unrhyw isadeiledd technegol

3.6 Organogram o’r tîm cynhyrchu gan nodi'r aelodau allweddol:
(a) Prif bwynt cyswllt/uwch gynhyrchydd*
(b) Cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr
(c) Ymchwil
(ch) Prif gyswllt Rheoli Cynhyrchu/Busnes

*Ar gyfer 3.6 (b) bydd angen i chi fod wedi cael caniatâd y bobl hyn i ddefnyddio eu henwau yn eich cais.

3.7 Eich profiad o gynhyrchu rhaglenni o’r genre yma

3.8 Cyllideb yn seiliedig ar y manylion yn y gwahoddiad i dendro hwn a’r manylion yn **Atodlen A,** sef y **Nodiadau Ariannol**.

3.9 Unrhyw sylwadau cyfreithiol yn deillio o’r **Nodiadau Cyfreithiol a Chytundebol** yn **Atodlen B** ynghyd â datganiad y bydd y Cwmni’n cydymffurfio gyda chanllawiau ymarfer da S4C.

3.10 Manylion am unrhyw ffactorau neu fanteision ychwanegol i S4C

## 4. Camau ac amserlen y broses dendr

Fe ofynnir i chi anfon eich **cais yn electroneg (gan gynnwys y gyllideb) at:**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad e-bost | **tendr@s4c.cymru** |
| Ceisiadau i'w derbyn erbyn | **12:00 canol dydd Llun 26 Ionawr 2026** |

**NI DDERBYNNIR UNRHYW GYNIGION A DDAW I LAW WEDI'R DYDDIAD A'R AMSER CAU.**

Nid yw S4C yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddiffygion mewn unrhyw system drosglwyddo nac am unrhyw geisiadau sydd yn mynd ar goll, yn cael eu hoedi neu'n ddiffygiol. Cyfrifoldeb y Cwmni yw sicrhau fod ei gais (ynghyd ag unrhyw atodiadau perthnasol) wedi ei baratoi mewn da bryd (gan gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y gall staff fod yn absennol neu fethiannau technegol) ac y caiff ei gyflwyno cyn y dyddiad a'r amser cau. Ni ystyrir prawf o anfon y cais fel prawf o'i dderbyn ac anogir i bob Cwmni holi am gadarnhad o dderbyn y cais. Rydym yn awgrymu bod unrhyw atodiad yn llai na 5MB neu gellid defnyddio trosglwyddydd megis Dropbox.

Mi fydd y panel yn dewis rhestr fer o geisiadau ac yn hysbysu'r cwmnïau ar y rhestr fer cyn diwedd y dydd Gwener **6 Chwefror 2026** ac yn eu gwahodd i gyfweliad (os bydd angen ac mi fydd yr un meini prawf yn cael eu defnyddio i asesu). Bydd S4C yn hysbysu'r cwmnïau na fu'n llwyddiannus ar yr un diwrnod. Rhagwelir y cynhelir y cyfweliadau yn ystod wythnos y **16eg o Chwefror 2026 .** Cedwir yr hawl gan S4C i beidio â chynnal cyfweliadau.

Os oes yna Gwmni llwyddiannus (ac yn ddarostyngedig i gytundeb), bydd S4C yn cysylltu gyda'r Cwmni drwy e-bost **dim hwyrach na 23 Chwefror 2026** a gyda'r cwmnïau eraill a gafodd eu cyfweld i'w hysbysu na fuont yn llwyddiannus ar yr un adeg. Os na fu neb yn llwyddiannus, bydd S4C yn hysbysu'r holl Gwmnïau a gafodd eu cyfweld o hyn ar yr un dyddiad.

Neilltuir cyfnod o fis i drafod unrhyw faterion cyllidebol a chytundebol eraill a disgwylir arwyddo'r cytundeb terfynol o fewn y mis.

## 5. Ffactorau comisiynu

Ystyrir y ceisiadau gan banel o swyddogion o S4C. Y panel hwn fydd yn ystyried y manylion a gynhwysir yn y ceisiadau ac unrhyw wybodaeth bellach neu bwyntiau o eglurhad a dderbyniwyd yn ystod y cyfweliad, ac yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran y tendr yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ei hun.

Seilir y penderfyniad terfynol ar y tendr llwyddiannus (os o gwbl) ar y criteria canlynol ac mae uchafswm y sgôr yn erbyn pob ffactor wedi'i nodi isod:

| Criteria Asesu | Uchafswm y sgôr % |
|---|---|
| Cynnwys golygyddol y cais - Gweledigaeth, Cynllun a fformat | 35 |
| Cynllun digidol y cais | 35 |
| Profiad y Cwmni o gynhyrchu rhaglenni tebyg | 15 |
| Yr unigolion sy'n allweddol i'r cais | 5 |
| Defnydd gorau o'r gyllideb i gynnwys asesiad a dadansoddiad o wahanol elfennau o'r gyllideb | 10 |

## 6. Ymholiadau pellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn cysylltiad â'r tendr, yna dylid danfon e-bost at S4C at tendr@s4c.cymru cyn hanner dydd **4 Tachwedd 2025** – nid oes modd ateb wedi hyn a bydd cynrychiolydd ar ran S4C yn cysylltu â chi. Er mwyn sicrhau tegwch i bob cwmni mae'n bosib y bydd yr atebion i unrhyw gwestiynau yn cael eu rhoi ar wefan cynhyrchu S4C, ond ni fydd ffynhonnell yr ymholiad yn cael ei datgelu. Atgoffir ni ddylid cysylltu â swyddogion S4C i wneud unrhyw ymholiad heblaw am drwy'r ffurf swyddogol.

## Noder os gwelwch yn dda

Mae'r gwahoddiad yn ddarostyngedig i'r Nodiadau Cyfreithiol yn **Atodlen B** ac yn agored i bob Cwmni sy'n credu y gallant gwrdd â'r gofynion a'r criteria a gynhwysir yn y gwahoddiad hwn, yn ddarostyngedig yn unig i'r cyfyngiadau ariannol yn y gwahoddiad. Gall Cwmnïau heb unrhyw brofiad darlledu blaenorol ond sydd ag arbenigedd perthnasol (e.e. o greu cynnyrch aml-gyfryngol neu gymwysiadau rhyngweithiol neu gwmnïau adnoddau) fod yn rhan o gais.

Yn y pen draw, ni fydd unrhyw ddyletswydd ar S4C i gynnig y tendr i unrhyw Gwmni ac nid oes unrhyw beth yn y gwahoddiad hwn sy'n gorfodi S4C i wneud hynny. Yn benodol ond heb gyfyngiad, bydd gan S4C y dewis o gynnig y tendr a'r comisiwn naill ai i un Cwmni neu i rannu'r comisiwn rhwng dau neu fwy o'r Cwmniau. Ar y llaw arall, fe fydd gan S4C yr hawl i beidio â rhoi'r tendr a'r comisiwn i unrhyw Gwmni.

Bydd angen i bob Cwmni fanylu os oes posibilrwydd o wrthdaro buddiannau rhwng yr unigolion sydd ynghlwm â'r cais ag unrhyw aelod o staff S4C, er mwyn galluogi S4C i aseinio staff heb unrhyw gysylltiadau o unrhyw fath â'r cais i'r broses.

## Rhestr yr atodlenni

**ATODLEN A – Nodiadau Ariannol**
**ATODLEN B - Nodiadau Cyfreithiol a Chytundebol**

## ATODLEN A

## Nodiadau Ariannol

Bydd angen i'r ymgeiswyr gyflwyno cyllideb 36-tudalen arferol. Gellir lawrlwytho copïau o https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1153/ffurflenni-a-chytundebau/.

1. Dylid paratoi'r gyllideb ar sail y gofynion canlynol:

   28 awr o gynnwys bydd yn cael ei rannu dros gyfnod o ddwy flynedd (14 awr y flwyddyn).

   Lleiafswm o 10 awr y flwyddyn ar gyfer darlledu llinol, a lleiafswm o 2 awr y flwyddyn i'w gyhoeddi fel cyfresi digidol yn unig ar blatfform Youtube, gyda'r 2 awr sydd yn weddill yn agored i'ch cynnig chi o gynnwys.

   Bydd y cynnwys yma yn cael ei ddarlledu/cyhoeddi yn llinol, ar Clic ac iplayer, ac ar draws ein platfformau digidol perthnasol. Disgwylir i'r holl gynnwys fod wedi clirio ar gyfer ei gyhoeddi ar Youtube.

   Cyllideb am y ddwy flynedd o hyd at £1.5m (£750,000 y flwyddyn) a dylid cyflwyno 1 cyllideb ar sail dwy flynedd i gyd fynd gyda hyd y cytundeb.

2. Bydd y cwmni'n gyfrifol am glirio unrhyw gynnwys megis cyfranwyr, deunydd trydydd parti, cerddoriaeth ayyb.
   Dylid clirio'r rhaglenni yn unol â Thelerau Cyffredinol S4C (media.cms.v3.s4c.cymru/media/media_assets/TC_Cymraeg_2021_Drafft_terfynol_i_w_gyhoeddi.pdf ac yn fyd-eang (lle yn bosib)
   Dylid clirio'r cynnwys digidol yn unol â Thelerau Ffurf Fer Safonol S4C (https://media.cms.v3.s4c.cymru/media/media_assets/4116370c-26ae-4981-8a9f-73a175ce7632.pdf) ac yn fyd-eang (lle yn bosib)

   Dylid nodi unrhyw gyfyngiadau yn y manylion cais / cyllideb.

3. Dylid cynnwys y gost o gydymffurfio yn llawn â Gofynion Cyfleu a Safonau Technegol S4C sydd ar gael yn:
   https://media.cms.v1.s4c.cymru/media/media_assets/Awst_2020_Gofynion_Cyfleu.pdf
   https://media.cms.v1.s4c.cymru/media/media_assets/Technical_Standards_for_Delivery_of_Television_Programmes_to_S4C_2020_Welsh_Rev1a.pdf

4. Dylid cynnwys y gost o yswirio'r gwaith cynhyrchu o fewn y gyllideb ynghyd â ffi rheoli a chostau gweinyddol cysylltiedig â chynhyrchu'r rhaglenni.

5. Dylid cynnwys y gost o gydymffurfio yn llawn â Nodiadau Cyfreithiol S4C fel y'u nodir yn **Atodlen B.**

Bydd angen i bob cais fanylu os oes posibilrwydd o dderbyn arian neu gymorth ariannol o unrhyw ffynhonnell arall, h.y. os yw'r cyllidebau wedi eu paratoi ar y rhagdybiaeth o dderbyn unrhyw grant neu o weithio gyda unrhyw drydydd parti. Fodd bynnag, noder os gwelwch yn dda mai mater i S4C yn unig yw trefnu unrhyw nawdd neu hysbysebion ar gyfer y gwasanaeth/rhaglenni ac ni ddylai unrhyw gwmni gyflwyno cais ar y sail neu'r ddamcaniaeth y bydd modd iddo sicrhau ffynhonnell ychwanegol o arian (uwchlaw pris y cytundeb a gymeradwyir gan S4C) drwy sicrhau nawdd neu werthu hysbysebion ar gyfer y gwasanaeth/rhaglenni.

**ATODLEN B**

**Nodiadau Cyfreithiol a Chytundebol**

## 1 Dim ymrwymiad i gynnig y cytundeb

Ni fydd unrhyw beth yn y ddogfen hon neu mewn unrhyw gyfathrebu rhwng S4C a chi ynghylch y broses hon neu'r ymateb yn gyfystyr â chytundeb i ddarparu unrhyw gynnyrch neu wasanaeth y rhoddir sylw iddo yn y broses hon, neu warant neu gyflwyniad y bydd unrhyw gytundeb yn cael ei ddyfarnu neu y gallai unrhyw gytundeb gael ei ddyfarnu.

Mae S4C yn cadw'r hawl i dynnu yn ôl o a/neu adael a/neu ohirio'r broses hon ar unrhyw adeg, i beidio dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses hon, i ychwanegu at, diwygio a/neu egluro amodau a thelerau'r ddogfen hon a/neu i ofyn i chi egluro eich ymateb a/neu darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â hynny.

## 2 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhaid ichi ddarparu manylion os rhagwelir y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau unigolion sy'n ymwneud â'ch cais a staff S4C. Mae hyn er mwyn galluogi S4C i sicrhau ei bod yn neilltuo staff i'r broses hon nad oes ganddynt unrhyw berthynas bersonol gydag unrhyw ymgeisydd neu aelod o staff consortiwm perthnasol.

## 3 Cadarnhad Cywirdeb Gwybodaeth

Drwy ddanfon ymateb i'r tendr hwn mae ymgeiswyr yn cadarnhau bod pob gwybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn parhau i fod yn wir, gyflawn a chywir.

## 4 Cytundeb

Bydd y cytundeb yn parhau am gyfnod o ddwy flynedd (2026/2027 a 2027/2028) nes y bydd yr holl raglenni, cynnwys a gwaith papur perthnasol wedi ei gyfleu i S4C.

Yn benodol, caiff y cwmni llwyddiannus ei gytundebu yn unol â Thelerau Cyffredinol S4C a/neu Telerau Ffurf Fer Safonol, i'w cael yma: Ffurflenni a Chytundebau | Cynhyrchu | S4C.

Fodd bynnag, mae S4C yn cadw'r hawl i amrywio a diwygio'r telerau hynny yn y fath fodd ag y mae S4C yn ystyried yn angenrheidiol ac fe fydd rhaid i'r cytundeb adlewyrchu a chadarnhau ar ba delerau y cynigiwyd y comisiwn i'r cwmni llwyddiannus (os yn berthnasol).

Trwy gyflwyno ymateb i'r tendr hwn, cymerir yn ganiataol eich bod yn derbyn telerau ac amodau'r dogfennau yma.

Os, yn dilyn gwobrwyo'r tendr, na fydd trafodaethau ariannol neu gytundebol yn datblygu'n foddhaol cedwir yr hawl gan S4C i gynnig y tendr i ymgeisydd arall neu i ail dendro.

S4C a'r cwmni(au) llwyddiannus fydd yr unig bartïon i'r cytundeb.

Nid oes rheidrwydd ar S4C i dderbyn holl elfennau'r cynnig llwyddiannus (os yn berthnasol). Gall dderbyn elfennau o un neu fwy o'r cynigion. Gall hyn olygu bod Cwmnïau yn cyd-weithio gydag eraill er mwyn darparu'r gwasanaethau mae S4C ei angen. Rydych yn cytuno i hyn wrth gyflwyno'r cais.

## 5 Codau Ymarfer a Chanllawiau

Bydd yn rhaid i'r cwmni llwyddiannus gydymffurfio â'r codau ymarfer, deddfwriaeth a chanllawiau canlynol (ymysg eraill):

- Cod Darlledu Ofcom;
- Cyfraith ac Ymarfer Da'r Diwydiant ar faterion Iechyd a Diogelwch;
- Deddfwriaeth Diogelu Data;
- Polisi Gwarchod Plant S4C;
- Gofynion Technegol S4C ;
- Polisi a Chanllawiau Cyfryngau Cymdeithasol S4C;
- Canllawiau Iaith S4C;
- Canllawiau Brand S4C;
- Canllawiau Ymarfer Da S4C ar Gyfer Cystadlaethau;
- Ymrwymiad i Amrywiaeth S4C
- Polisi a chanllawiau Atal Aflonyddu
- unrhywnllawiau eraill sy'n weithredol i S4C neu wasanaethau S4C ar adeg y darllediadau

Fe ddylai pob cais gynnwys y gost o gydymffurfio â'r uchod. Mae mwyafrif canllawiau S4C wedi eu cynnwys ar safle cynhyrchu S4C sydd ar gael yma http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/ .

## 6 Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000 yn weithredol i S4C. Os byddwch o'r farn bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylech nodi hynny yn benodol yn eich ymateb gan nodi'r rhesymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif. Fodd bynnag, rhaid ichi dderbyn y bydd S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddi wneud hynny er mwyn cydymffurfio gyda RhG. Mae S4C yn cadw'r hawl i benderfynu yn ei disgresiwn llwyr os yw unrhyw wybodaeth arbennig wedi ei eithrio rhag ei ddadlennu.

## 7 Diogelu Data

Trwy gyflwyno ymateb rydych yn cadarnhau eich bod wedi hysbysu pob unigolyn a adnabyddir yn yr ymateb tendr eich bod yn mynd i rannu eu data personol yn y modd hwn. Rydych yn cydnabod y bydd S4C yn prosesu'r holl wybodaeth bersonol a ddarparwyd fel rhan o'ch ymateb yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. Mae Hysbysiad Preifatrwydd S4C ar gael ar www.s4c.cymru, a byddwch yn hysbysu pob unigolyn y mae eu data personol yn cael ei ddarparu i S4C o'r cymal 7 hwn. Bydd S4C yn prosesu unrhyw ddata personol a ddarparwyd yn eich ymateb tendr ar y sail ei fod yn eich diddordeb dilys chi ac S4C i brosesu'r holl ddata sydd wedi'u ddarparu gennych fel rhan o'r ymateb tendr ar gyfer y pwrpas o werthuso'r ymateb i dendr.

## 8 Cyfrinachedd a Chyhoeddusrwydd

Trwy gyflwyno ymateb, rydych yn cytuno i gadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a fydd ar gael i chi gan S4C mewn unrhyw gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses hon. Rydych yn cytuno i beidio

defnyddio gwybodaeth o’r fath at unrhyw ddiben ac eithrio’r diben o baratoi’r ymateb, ac i beidio datgelu gwybodaeth o’r fath i unrhyw unigolyn arall ac eithrio mewn ffordd gyfrinachol ac ar sail yr angen i’w gwybod, i’r unigolion hynny sy’n ymwneud â’r gwaith o baratoi’r ymateb i S4C yn uniongyrchol. Ni fydd yr oblygiadau cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus ar yr adeg y caiff ei datgelu iddynt gan S4C.

Trwy gyflwyno ymateb i’r cais yma am bris rydych yn cytuno i sicrhau na fydd unrhyw aelod o’ch staff neu unrhyw berson sydd yn eich cynghori neu sydd yn rhan o'ch ymateb yn gwneud datganiad cyhoeddus o unrhyw fath (gan gynnwys, heb gyfyngiad, safleoedd gwe rhwydweithio cymdeithasol, megis Facebook neu Twitter neu fel arall) yn gysylltiedig â thestun y cais yma am bris neu unrhyw benderfyniad S4C ynghylch unrhyw elfen o’r broses gystadleuol yma heblaw fod S4C wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw i’r fath gyfathrebiad.

## 9 Ymwadiad

Nid yw S4C yn cynnig unrhyw warant neu gyflwyniad ynghylch cyflawnder neu gywirdeb unrhyw wybodaeth yn y ddogfen hon ac mae unrhyw ddibyniaeth ar wybodaeth o’r fath ar eich risg eich hunain.

## 10 Dim cyd-gynllunio

Drwy gynnig ymateb i’r ddogfen hon, rydych yn cadarnhau:

1. bod yr ymateb yn “bona fide” ac yn gystadleuol;
2. nad ydych wedi gosod neu newid yr ymateb yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall (heblaw yng nghyswllt consortiwm, gydag aelodau eraill y consortiwm) nac wedi gofyn i unrhyw berson neu gwmni arall i wneud yr un peth; ac
3. nad ydych wedi trafod neu ymgynghori ag unrhyw berson arall heblaw am S4C ynglŷn â swm neu fras brisoedd eich ymateb, heblaw lle'r oedd y fath drafod yn gyfrinachol ac yn angenrheidiol er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch premiwm yswiriant neu ddyfynbris arall ar gyfer paratoi’r ymateb i’r ddogfen hon.

## 11 Ymddygiad Amhriodol

Os ydych chi neu’r rheini sydd yn eich cynghori yn gwneud unrhyw ymgais i ddylanwadu yn amhriodol ar y broses gystadleuol yma neu’r penderfyniad i wobrwyo’r cytundeb mewn unrhyw ffordd, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso eich ymateb i’r broses gystadleuol yma yn nisgresiwn llwyr S4C . Os ydych chi neu’r rheini sydd yn eich cynghori yn gwneud unrhyw ymgais i ganfasio unrhyw aelod o staff S4C yn gysylltiedig â’r broses gystadleuol yma neu ymgais i gael gwybodaeth gan unrhyw un o weithwyr neu asiantau S4C ynglŷn ag unrhyw sefydliad arall sydd yn rhan o'r broses gystadleuol yma, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso eich ymateb yn nisgresiwn llwyr S4C.

## 12 Cyfraith Lywodraethol

Llywodraethir y ddogfen hon gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac rydych yn cytuno, trwy ddychwelyd ymateb, i ymrwymo i awdurdodaeth llwyr-gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.